98. Bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch pa gyrsiau astudio i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol o dan adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn dibynnu i raddau helaeth ar y cynhwysedd addysgol lleol. Ychydig iawn o werth fydd cynnwys cyrsiau nad yw ysgolion lleol a sefydliadau addysg bellach yn medru eu cyflenwi.

99. Yn unol â hynny, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion 16 i 18 oed yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm neu gwricwla lleol ar gyfer ardal benodol awdurdod addysg lleol.

100. Mae is-adran (1) yn pennu bod yn rhaid i'r personau canlynol gynorthwyo Gweinidogion Cymru yn hyn o beth:

(a) yr awdurdod addysg lleol y llunnir y cwricwlwm lleol neu'r cwricwla lleol ar gyfer ei ardal;
(b) corff llywodraethu a phennaeth unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw;
(c) corff llywodraethu a phennaeth sefydliad yn y sector addysg bellach sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod hwnnw.

101. Mae is-adran (2) yn diffinio "planning the local curriculum or curricula" fel y broses lle y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu pa gyrsiau astudio i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Mae is-adran (3) yn darparu bod Gweinidogion Cymru'n dyroddi canllawiau a chyfarwyddiadau ar gyfer y cyrff a bennir yn is-adran (1) mewn cysylltiad â'u dyletswydd i gynorthwyo Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(c) the governing body and principal of an institution within the further education sector situated in that authority's area.

101. Subsection (2) defines "planning the local curriculum or curricula" as the process by which the Welsh Ministers decide which courses of study to include in a local curriculum. Subsection (3) provides for the Welsh Ministers to issue guidance and directions to the bodies specified in subsection (1) in connection with their duty to assist the Welsh Ministers under this section.

**Section 32 Delivery of local curriculum entitlements: joint-working (section 33K of the Learning and Skills Act 2000)**

102. As subsection (1) states, the objective of this section is to maximise the availability of courses of study included in local curricula established under the Learning and Skills Act 2000.

103. Subsections (2) and (4) impose on the local education authority, the governing body of a maintained secondary school and that of a further education institution, a duty to take all reasonable steps to secure the objective of this section.

104. Subsection (3) provides that the duty to take all reasonable steps to secure the objective of the section includes, but is not limited to, a duty to seek to enter into co-operation arrangements where the relevant persons have concluded that it would further the objective of the section to enter into such arrangements.

105. "Co-operation arrangement" is defined in subsection (5) to mean an arrangement whereby any person provides a course of study on behalf of a governing body of a maintained school or of a further education institution, or arrangements made under regulations under sections 26 of the Education Act 2002 and 166 of the Education and Inspections Act 2006, which are more formal collaboration arrangements that could include, for example, the establishment of a joint committee.

106. Subsection (6) defines "relevant local curriculum" for the purposes of this section.

**Section 33 Joint working: guidance and directions (section 33L of the Learning and Skills Act 2000)**

107. This section relates to the joint-working obligations imposed by section 33K.

108. Subsection (1) provides that a local education authority, a governing body of a maintained secondary school and the governing body of a further education institution are required to have regard to guidance issued by Welsh Ministers as to the discharge of their duties under section 33K.

109. Subsection (2) provides that guidance issued under subsection (1) may relate to the contents of co-operation arrangements.

110. Subsection (3) provides that persons mentioned in subsection (1) must comply with any direction given by Welsh Ministers as to the entering into any co-operation arrangement

**Adran 32 Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio (adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

102. Fel y nodwyd yn is-adran (1), amcan yr adran hon yw sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau astudio ar gael o fewn y cwricwla lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

103. Mae is-adrannau (2) a (4), yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau amcan yr adran hon.

104. Mae is-adran (3) yn darparu bod y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau amcan yr adran yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, dyletswydd i geisio ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu, lle y mae'r personau perthnasol wedi penderfynu y byddai'n hyrwyddo amcan yr adran i ymrwymo mewn trefniadau o'r fath.

105. Diffinnir "co-operation arrangement" yn is-adran (5) i olygu trefniant lle y mae unrhyw berson yn darparu cwrs astudio ar ran corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, neu drefniadau a wneir o dan reoliadau o dan adrannau 26 o Ddeddf Addysg 2002 a 166 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n drefniadau cydweithio mwy ffurfiol a allai gynnwys, er enghraifft, sefydlu cyd-bwyllgor.

106. Mae is-adran (6) yn diffinio "relevant local curriculum" at ddibenion yr adran hon.

**Adran 33 Cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau (adran 33L o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

107. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ymrwymiadau i gydweithio a osodir gan adran 33K.

108. Mae is-adran (1) yn darparu bod awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a chorff llywodraethu sefydliad addysg bellach yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau o dan adran 33K.

109. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff canllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1) ymwneud â chynnwys trefniadau cydweithredu.

110. Mae is-adran (3) yn darparu bod yn rhaid i'r personau a grybwyllir yn is-adran (1) gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch ymrwymo mewn unrhyw drefniadau cydweithredu.

111. Mae is-adran (4) yn ei gwneud hi'n glir y gallai cyfarwyddiadau a roddir o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i bersonau ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu penodol a chânt bennu'r telerau pan ddylid ymrwymo mewn trefniadau o'r fath. Yn achos cyfarwyddyd i ymrwymo mewn trefniant cydweithredu â pharti heblaw Awdurdod Addysg Lleol, corff llywodraethu ysgol neu gorff llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach, rhaid peidio â rhoi cyfarwyddyd o'r fath heb gydsyniad y parti hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys cyrff eraill sy'n darparu cyrsiau astudio sy'n rhan o

111. Subsection (4) makes it clear that directions given under this section may require persons to enter into specified co-operation arrangements and may specify the terms upon which such arrangements are to be entered into. In the case of a direction to enter into a co-operation arrangement with a party other than a Local Education Authority, school governing body or Further Education Institution governing body, such a direction must not be given without the consent of that party. This will include other organisations providing courses of study which are included in local curricula, for example, private training providers or voluntary sector organisations.

**Section 34 Power to amend learning domains (section 33M of the Learning and Skills Act 2000)**

112. This provision allows Welsh Ministers to amend section 33A(3). This would, for example, allow new learning domains to be created.

**Section 35 The local curriculum: interpretation (section 33N of the Learning and Skills Act 2000)**

113. This section provides the meaning of various terms used in the provisions inserted in the Learning and Skills Act 2000 by this Measure.

**Section 36 Local curriculum: directions (section 33O of the Learning and Skills Act 2000)**

114. This section makes it clear that any direction given by the Welsh Ministers under sections 33A, formation of the local curricula, 33J, planning the local curriculum and 33L, joint working, may be varied or revoked by a further direction.

**Section 37 Application of local curriculum provisions to students who are registered pupils of special schools or who have learning difficulties (section 33P of the Learning and Skills Act 2000)**

115. This Part of the Measure does not apply to special schools or further education institutions which wholly or mainly provide education for persons with a learning difficulty. Provision is however made in this section for regulations to be made applying the local curriculum provisions to above compulsory school age registered pupils of special schools or students of institutions which provide education wholly or mainly for persons with a learning difficultly.

116. Subsection (1) enables the making of regulations to apply the local curriculum provisions to the persons who are above compulsory school age and are registered at a maintained special school or who receive the majority of their education at an institution that provides education wholly or mainly for persons with a learning difficulty.

gwricwla lleol, er enghraifft, darparwyr hyfforddiant preifat neu gyrff yn y sector gwirfoddol.

**Adran 34 Pŵer i ddiwygio meysydd dysgu (adran 33M o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

112. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 33A(3). Byddai hyn, er enghraifft, yn caniatáu creu meysydd dysgu newydd.

**Adran 35 Y cwricwlwm lleol: dehongli (adran 33N o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

113 Mae'r adran hon yn darparu ystyr y termau amrywiol a ddefnyddir yn y darpariaethau a fewnosodir yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 gan y Mesur hwn.

**Adran 36 Cwricwlwm lleol: cyfarwyddiadau (adran 33O o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

114. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn glir y gellir amrywio neu ddirymu drwy gyfarwyddyd pellach unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 33A, llunio cwricwla lleol, 33J, cynllunio'r cwricwlwm lleol a 33L, gweithio ar y cyd.

**Adran 37 Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i fyfyrwyr sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu fyfyrwyr a chanddynt anawsterau dysgu (adran 33P o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

115. Nid yw'r Rhan hon o'r Mesur yn gymwys i ysgolion arbennig na sefydliadau addysg bellach sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl ag anhawster dysgu. Er hynny, gwneir darpariaeth yn yr adran hon ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n cymhwyso darpariaethau o ran cwricwlwm lleol i ddisgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu'n fyfyrwyr mewn sefydliadau sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl gydag anhawster dysgu.

116. Mae is-adran (1) yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n cymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol i'r personau sydd dros oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol arbennig a gynhelir neu sy'n derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg mewn sefydliad sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl ag anhawster dysgu.

117. Mae is-adran (2) yn galluogi gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) i gymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol gydag unrhyw addasiadau sydd eu hangen i gymryd i ystyriaeth, er enghraifft, yr amgylchiadau y mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu ynddynt.

**Adran 38 Cymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol i sefydliadau o fewn y sector addysg uwch (adran 33Q o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000)**

118. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gymwys i ddarpariaethau perthnasol y Mesur i sefydliadau o fewn y Sector Addysg Uwch yng

117. Subsection (2) enable regulations made under subsection (1) to apply the local curriculum provisions with any modifications needed to take into account, for example, the circumstances in which these institutions operate.

**Section 38 Application of local curriculum provisions to institutions within the higher education sector (section 33Q of the Learning and Skills Act 2000)**

118. This section provides the Welsh Ministers with a power to make regulations which apply the relevant provisions of the Measure to institutions within the Higher Education sector in Wales in the same way that they apply to institutions within the Further Education sector in Wales. This is to ensure that Higher Education institutions which provide Further Education in Wales can be brought within the scope of the Measure.

119. Subsection (2) provides that the regulations made under this section may apply the same powers and duties which are conferred on principals and governing bodies within the Further Education sector to the equivalent bodies and individuals in the Higher Education sector. Subsection (3) provides that the regulations made under this section may apply the provisions of the Measure to institutions within the Higher Education sector with such modifications that appear to the Welsh Ministers to be necessary or expedient.

**Section 39 Regulation and orders: procedures**

120. This section amends section 152 of the Learning and Skills Act 2000 so as to provide for Assembly control of regulations and orders made under the provisions inserted by this Measure into Part 2 of that Act. The relevant procedure is the negative resolution procedure in all cases except where an order is made under sections 33G(5), 33I(5) or 33M which, because it alters primary legislation, is made subject to the affirmative resolution procedure.

**PART 3 – SERVICES RELATED TO EDUCATION TRAINING AND SKILLS**

**Section 40 Provision of services by maintained schools and further education institutions**

121. Subsection (1) permits the Welsh Ministers to direct the governing bodies of maintained schools and Further Education Institutions to provide or secure "learner support services". They may also be directed to participate where learner support services are provided by someone else.

122. Subsection (3) gives a broad meaning to the term "learner support services". Accordingly, a potentially wide range of services may be required to be provided under this section.

123. Subsection (4) sets out ancillary matters that may be included in a learner support services direction under subsection (1). For example, the directed body may be required to have regard to guidance given by the Welsh Ministers as to the provision of a particular learning support service.

Nghymru yn yr un modd ag y maent yn gymwys i sefydliadau o fewn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu Addysg Bellach yng Nghymru yn gallu cael eu cynnwys yng nghwmpas y Mesur.

119. Mae is-adran (2) yn darparu y gall y rheoliadau a wnaed o dan yr adran hon gymhwyso'r un pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd i benaduriaid a chyrff llywodraethu o fewn y sector Addysg Bellach i'r cyrff ac unigolion cyfatebol yn y sector Addysg Uwch. Mae is-adran (3) yn darparu y gall y darpariaethau a wnaed o dan yr adran hon gymhwyso darpariaethau'r Mesur i sefydliadau o fewn y sector Addysg Uwch gyda'r addasiadau y cred Gweinidogion Cymru eu bod yn angenrheidiol neu'n gyfleus.

**Adran 39 Rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn**

120. Mae'r adran hon yn diwygio adran 152 o Ddeddf Dysgu a Medru 2000 er mwyn darparu bod y Cynulliad yn rheoli'r rheoliadau a'r gorchmynion a wneir o dan y darpariaethau a fewnosodir gan y Mesur hwn yn Rhan 2 o'r Ddeddf honno. Y weithdrefn berthnasol yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol ym mhob achos ac eithrio pan wneir gorchymyn o dan adrannau 33G(5), 33I(5) neu 33M sydd, oherwydd y byddai'n newid deddfwriaeth sylfaenol, yn cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## RHAN 3 – GWASANAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADDYSG, HYFFORDDIANT A SGILIAU

**Adran 40 Gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

121. Mae is-adran (1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach i ddarparu neu sicrhau "gwasanaethau cymorth i ddysgwyr". Gellir eu cyfarwyddo hefyd i gymryd rhan pan ddarperir gwasanaethau cymorth i ddysgwyr gan rywun arall.

122. Mae is-adran (3) yn rhoi ystyr eang i'r term "gwasanaethau cymorth i ddysgwyr". Yn unol â hynny, gall fod angen darparu amrywiaeth eang o wasanaethau o dan yr adran hon.

123. Mae is-adran (4) yn gosod y materion ategol y caniateir eu cynnwys mewn cyfarwyddyd gwasanaethau cymorth i ddysgwyr o dan is-adran (1). Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i'r corff a gyfarwyddir roi sylw i ganllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru ynghylch darparu gwasanaeth penodol o ran cymorth i ddysgwyr.

124. Mae is-adran (5) yn nodi y caiff cyfarwyddyd o'r fath ymwneud â dosbarth penodol o bersonau ifanc, caiff hefyd ddarparu ar gyfer dosbarthiadau gwahanol o bersonau a cheir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

124. Subsection (5) sets out that such a direction may relate to a particular class of young persons, may make different provision for different classes of young persons and may be varied or revoked by a later direction.

125. Subsection (6) provides for impartiality in the provision of advice and information by learning support services. It provides that information must be given in an impartial manner and that advice must be tendered which is considered to promote the best interest of the young person and does not seek to promote the interests or aspirations of any school, institution or other person or body against the best interests of the young person concerned.

**Section 41 Duties of governing bodies**

126. Governing bodies of maintained schools and further education institutions are required to comply with a direction given under section 40.

**Section 42 Amendments to the Learning and Skills Act 2000**

127. This section amends the Learning and Skills Act 2000.

128. The amendments made by this section to section 126 of that Act ensure that the requirements as to the transfer of information, and related matters, imposed upon educational institutions by that section in relation to youth support services also apply in the case of learner support services. For example, if a further education institution were providing learner support services to a registered pupil, the pupil's school could be required to provide (with parental consent) relevant information about the pupil, such as his educational history.

129. The amendments made to section 127 of the Learning and Skills Act 2000 ensure that Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales (Estyn) has the power to arrange for inspections of the provision of learner support services.

**Section 43 The learning pathway document**

130. This section makes provision for each "relevant pupil" or "relevant student" to be provided with a document which records his or her learning pathway. A pupil or student's learning pathway is comprised of the local curriculum courses of study that he or she is entitled to follow under the provisions inserted by Parts 1 or 2 of this Measure together with the learner support services that he is to be provided with under section 37 of this Measure. The record is known as a "learning pathway document". Under this section, it is for head teachers and principals of Further Education Institutions to produce, and keep up to date, learning pathway documents.

**Section 44 Learning pathways: interpretation**

131. This section defines terms used in section 43.

125. Mae is-adran (6) yn darparu ar gyfer amhleidioldeb pan fydd gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn rhoi cyngor a gwybodaeth. Mae'n darparu bod yn rhaid rhoi gwybodaeth mewn modd amhleidiol a bod yn rhaid cynnig cyngor yr ystyrir ei fod yn hybu budd pennaf y person ifanc ac nad yw'n ceisio hybu buddiannau neu ddyheadau unrhyw ysgol neu sefydliad neu berson neu gorff arall yn erbyn buddiannau gorau'r person ifanc o dan sylw.

**Adran 41 Dyletswyddau cyrff llywodraethu**

126. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan adran 40.

**Adran 42 Diwygiadau i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000**

127. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Dysgu a Medrau 2000.

128. Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon i adran 126 o'r Ddeddf honno'n sicrhau bod y gofynion ynghylch trosglwyddo gwybodaeth, a materion perthynol, a osodir ar sefydliadau addysgol gan yr adran honno mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ieuenctid hefyd yn gymwys yn achos gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Er enghraifft, petai sefydliad addysg bellach yn darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar gyfer disgybl cofrestredig, gallai fod yn ofynnol i ysgol y disgybl ddarparu (gyda chydsyniad y rhiant) yr wybodaeth berthnasol am y disgybl, megis ei gefndir addysgol.

129. Mae'r diwygiadau a wneir i adran 127 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn sicrhau bod gan Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) y pŵer i drefnu arolygiadau ar y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth i ddysgwyr.

**Adran 43 Y ddogfen llwybr dysgu**

130. Mae'r adran hon yn darparu bod pob "disgybl perthnasol" neu "fyfyriwr perthnasol" yn cael dogfen sy'n cofnodi ei lwybr dysgu. Mae llwybr dysgu disgybl neu fyfyriwr yn cynnwys y cyrsiau astudio cwricwlwm lleol y mae ganddo'r hawlogaeth i'w dilyn o dan y darpariaethau a fewnosodir gan Rannau 1 neu 2 o'r Mesur hwn ynghyd â'r gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir ar ei gyfer o dan adran 37 o'r Mesur hwn. Adwaenir y cofnod fel "y ddogfen llwybr dysgu". O dan yr adran hon, dyletswydd pennaeth ysgol neu bennaeth Sefydliad Addysg Bellach yw cynhyrchu a diweddaru dogfennau llwybr dysgu.

**Adran 44 Llwybrau dysgu: dehongli**

131. Mae'r adran hon yn diffinio termau a ddefnyddir yn adran 43.

**Adran 45 Darparu gwybodaeth am y cwricwlwm**

132. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 45B yn Neddf Addysg 1997. Mae'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau gyrfa i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach roi gwybodaeth iddynt am y cwricwlwm.

### Section 45 Provision of curriculum information

132. This section inserts a new section 45B into the Education Act 1997. It permits careers services providers to require schools and Further Education Institutions to provide them with curriculum information.

## PART 4 – MISCELLANEOUS AND SUPPLEMENTAL

### Section 46 Regulations in connection with the operation of the local curriculum

133. Currently, education legislation tends to be drafted on the assumption that a child will receive the majority of his or her education at a single site. Under the local curricula formed under Parts 1 and 2 of this Measure, this will often not be the case. For example, a child could receive a significant amount of his or her education at a school other than that at which he or she is registered.

134. The purpose of this section is to allow regulations to be made so that the existing body of education legislation will apply in an appropriate fashion in respect of children who receive education at more than one educational institution. For example, regulations under this section could specify that, for the purposes of legislation governing meetings with a child's parents, the child is to be treated as a registered pupil at more than one school in order that the parents have the right to meet with those responsible for the child's education at both schools.

### Section 47 Minor and consequential amendments

135. This section introduces the Schedule which contains minor and consequential amendments.

### Section 48 Orders and regulations

136. This section provides that any power of the Welsh Ministers to make regulations or an order under the Measure is exercisable by statutory instrument. It also provides that any regulations made under the Measure may be annulled by a resolution of the National Assembly for Wales.

### Section 49 Commencement

137. This provides for the Measure to be brought into force by order of the Welsh Ministers. It permits the Measure to be brought into force at different times for different purposes.

### Section 50 Short title

138. This confers the title of the Measure – the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

## RHAN 4 – AMRYWIOL AC ATODOL

### Adran 46 Rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cwricwlwm lleol

133. Ar hyn o bryd, tueddir drafftio deddfwriaeth addysgol ar y dybiaeth y bydd plentyn yn derbyn y rhan fwyaf o'i addysg ar un safle. O dan y cwricwla lleol a lunnir o dan Rannau 1 a 2 o'r Mesur hwn, yn aml nid felly y bydd hi. Er enghraifft, gallai plentyn dderbyn cyfran sylweddol o'i addysg mewn ysgol wahanol i'r un y mae wedi'i gofrestru ynddi.

134. Diben yr adran hon yw caniatáu i reoliadau gael eu gwneud fel y bydd y corff presennol o ddeddfwriaeth addysgol yn gymwys mewn ffordd briodol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn eu haddysg mewn mwy nag un sefydliad addysgol. Er enghraifft, gallai rheoliadau o dan yr adran hon bennu, at ddibenion deddfwriaeth sy'n rheoli cyfarfodydd gyda rhieni plentyn, bod plentyn i'w drin fel disgybl cofrestredig mewn mwy nag un ysgol er mwyn i'r rhieni gael yr hawl i gyfarfod â'r rhai sy'n gyfrifol am addysg y plentyn yn y ddwy ysgol.

### Adran 47 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

135. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

### Adran 48 Gorchmynion a rheoliadau

136. Mae'r adran hon yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchymyn o dan y Mesur yn arferadwy drwy offeryn statudol. Mae hefyd yn darparu y caniateir dileu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Mesur drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Adran 49 Cychwyn

137. Mae'r adran hon yn darparu bod y Mesur yn cael ei ddwyn i rym drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Mae'n caniatáu i'r Mesur gael ei ddwyn i rym ar adegau gwahanol ar gyfer dibenion gwahanol.

### Adran 50 Enw byr

138. Mae'r adran hon yn enwi'r Mesur – Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

## RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

The following table sets out the dates and references for each stage of this Measure's passage through the National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Introduced | 7 July 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of proposed Measure | 17 July 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Evidence | 25 September 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Evidence | 30 September 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Evidence | 2 October 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Evidence | 9 October 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Evidence | 13 October 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Evidence | 14 October 2008 |
| Stage 1 – Scrutiny Committee Consideration of Outstanding issues | 16 October 2008 |
| Stage 1 - Debate | 9 December 2008 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – Outline of Procedures | 14 January 2009 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 21 January 2009 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 28 January 2009 |
| Stage 3 Debate | 17 March 2009 |
| Stage 4 Debate to Pass the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 | 17 March 2009 |
| Royal Approval in Council | 13 May 2009 |

© Crown copyright 2009
Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r tabl canlynol yn pennu'r dyddiadau a'r cyfeiriadau ar gyfer pob cam o hynt y Mesur drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

| | |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 7 Gorffennaf 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Mesur arfaethedig | 17 Gorffennaf 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Dystiolaeth | 25 Medi 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Dystiolaeth | 30 Medi 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Dystiolaeth | 2 Hydref 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Dystiolaeth | 9 Hydref 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Dystiolaeth | 13 Hydref 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y Dystiolaeth | 14 Hydref 2008 |
| Cam 1 – Pwyllgor Craffu Ystyried y materion sy'n weddill | 16 Hydref 2008 |
| Cam 1 - Dadl | 9 Rhagfyr 2008 |
| Cam 2 Pwyllgor Craffu – Amlinelliad o'r gweithdrefnau | 14 Ionawr 2009 |
| Cam 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 21 Ionawr 2009 |
| Cam 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 28 Ionawr 2009 |
| Cam 3 Dadl | 17 Mawrth 2009 |
| Cam 4 Dadl i basio Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 | 17 Mawrth 2009 |
| Derbyn Cymeradwyaeth Brenhinol yn y Cyfrin Gyngor | 13 Mai 2009 |

© Hawlfraint y Goron 2009
Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)**
ac mae ar gael oddi wrth:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
book.orders@theso.co.uk
http:/www.ukstate.com

**Siopau Llyfrau The Stationery Office**
16 Arthur Street, Belfast BTI 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Gwefan: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

*Gellir gwneud cais ar lein am drwydded Click Use i atgynhyrchu deunydd seneddol drwy http://www.opsi.gov.uk/click-use/index.htm*

**Published by TSO (The Stationery Office)**
and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
E-mail: customer.service@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

**TSO Shops**
16 Arthur Street, Belfast BTI 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

*Application for a Click Use licence to reproduce parliamentary material can be made online via http://www.opsi.gov.uk/click-use/index.htm*

ISBN 978-0-10-563805-6

9 780105 638056